**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

15 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023 ("Gorchymyn 2023")**

Diolch ichi am ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau adrodd drafft yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 30 Ionawr 2023 a'ch llythyr dilynol.

Mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol cyntaf, mae troednodyn (4) ar dudalen 3 o Orchymyn 2023 yn cyfeirio'r darllenydd at yr enw statudol a roddwyd i'r corff. O ystyried bod y ddarpariaeth hon y cyfeirir ati yn cyfeirio at "Ei Mawrhydi", roedd Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r dull drafftio gorau, yng nghyd-destun yr offeryn hwn ar yr adeg benodol honno, oedd cyfeirio at enw'r corff fel y'i sefydlwyd yn adran 73(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd ymagwedd wahanol mewn offerynnau yn y dyfodol wrth gyfeirio at y Sofran, gan ddibynnu ar gyd-destun y ddeddfwriaeth o dan sylw.

Gwnaethoch holi am gynlluniau Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU i ddiwygio deddfwriaeth bresennol i sicrhau cywirdeb a hygyrchedd. Mae cyfeiriadau at "Ei Mawrhydi" yn gywir o ganlyniad i adran 10 o Ddeddf 1978 ac adran 11 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dymunoldeb diwygio cyfeiriadau penodol gan ddibynnu ar y cyd-destun wrth ddeddfu yn y dyfodol. Nid ydym yn ymwybodol o gynlluniau Llywodraeth y DU ynglŷn â'r mater hwn.

Mae'r ail bwynt adrodd technegol wedi'i ystyried gan y tîm yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wneud diwygiadau i'r testun Cymraeg a gyhoeddir yn legislation.gov.uk, y Cofrestrydd Offerynnau Statudol a'r Golygydd Cyhoeddi yn yr Archifau Gwladol. Maent wedi cadarnhau y bydd y cyrff yn cael eu mewnosod yng Ngorchymyn 2018 yn nhrefn yr wyddor, ar sail y cyfarwyddyd i fewnosod y cyrff "yn y lleoedd priodol".

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hyderwn fod hyn yn gwneud safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government